# Encorafenib gyda binimetinib ar gyfer melanoma na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig sydd wedi profi'n bositif am y mwtadiad BRAF V600

27 Chwefror 2019

Mae encorafenib gyda binimetinib ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â melanoma:

- na ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth neu sydd wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff
- sydd â'r mwtadiad BRAF V600.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Melanoma UK, 0808 171 2455



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Melanoma Focus, 0808 801 0777
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Ymchwil Canser y DU, 0808 8800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3277-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.